

15/01/21

Annwyl Riant / Warcheidwad,

Gobeithio bod y dysgu o bell yn mynd yn hwylus ar hyn o bryd? Mae'r athrawon yn canmol ymroddiad ein disgyblion ar y cyfan, felly oes modd canmol a diolch i'ch plentyn / plant am eu hymdrechion hyd yn hyn. Hoffwn gadarnhau na fydd pob gwrs yn 'wers fyw' a byddwn yn parhau i ddarparu cyfuniad o brofiadau dysgu o bell - gwrsi byw, recordiadau o esboniadau a thasgau wedi'u gosod yn Teams i ddisgyblion eu cwblhau.

Mae ychydig mwy o sicrwydd gennym bellach am y sefyllfa bresennol ac mae'n debygol y byddwn yn parhau i ddarparu dysgu o bell hyd at hanner tymor, er bod yna adolygiad ar ddiwedd Ionawr. Yn sgîl hyn, hoffwn atgyfnerthu ein trefniadau dysgu gyda chi.

Mae ein **disgyblion yn dilyn eu hamserlen ysgol arferol** er mwyn cynnal strwythur ac arferion dysgu cyson ond hefyd yn ein caniatâu i fod mewn cyswllt dyddiol gyda'n disgyblion i fonitro eu lles. Mae'n allweddol bwysig bod y disgyblion yn mynychu pob gwrs yn ddyddiol.

08:40	Sesiwn gofrestru / gwasanaeth blwyddyn (cyfle i wirio lles ddisgyblion)		
09:00	Gwers 1	11:45	Gwers 4
09:50	Gwers 2	12:30	Cinio
10:40	Egwyl	13:15	Gwers 5
10:55	Gwers 3	14:05	Gwers 6

Mae gweithio o flaen y sgrîn am nifer o oriau bob dydd yn fater rydym yn awyddus i'w fonitro, er lles ein disgyblion. Felly, bydd y **gwrsi yn para am 40 munud ar y mwyaf** (yn hytrach na 50 munud llawn), gyda **10 munud rhwng pob gwrs i ddisgyblion i gymryd egwyl** gyson o'u gwaith.

Yn ogystal ag egwyl gyson, rydym hefyd wedi **danfon pecynnau gwaith allan** i nifer fawr o ddisgyblion er mwyn eu defnyddio i gefnogi'r 'gwrsi byw'. **Nid oes disgwyl i ddisgyblion wneud unrhyw waith yn y pecynnau yma nes bod eu hathrawon yn esbonio yn union beth yw'r dasg.** Bydd hyn yn rhoi cyfleoedd pellach i ddisgyblion weithio i ffwrdd o'u sgrîn, yn ogystal â chynnig cyfleoedd pwysig iawn i ymarfer medrau darllen ac ysgrifennu. Byddwn yn danfon rhagor o becynnau, yn ôl yr angen, yn hwyrach yn yr hanner tymor.

Mae dros 130 o **liniaduron yr ysgol wedi eu benthg i ddisgyblion** er mwyn gallu mynychu eu gwrsi yn ddyddiol. Os nad oes gan eich plentyn ddyfais addas, cysylltwch â ni yn yr ysgol, neu e-bostiwch Mrs Nerys Vaughan (VaughanN9@hwbcymru.com) i wneud trefniadau i gasglu dyfais. Nid yw defnyddio ffôn yn caniatâu disgyblion i gyflawni eu gwaith yn gyson ac i'r safon orau, felly byddem yn argymhell glianiadur neu gyfrifiadur fel y ddyfais orau i gefnogi dysg o bell. Os oes angen ail neu drydydd cliniadur ar gyfer un o'ch plant, fel gall bob un fynychu eu gwrsi ar yr amser cywir, yna cysylltwch gyda ni i drefnu benthg.

Rydym yn barhaus yn edrych am ffyrdd i wella ein darpariaeth dysgu o bell ac mae nifer o **ddisgyblion yr ysgol yn barod wedi cwblhau'r holiadur diweddar** i werthuso dysgu o bell yn ystod y tymor yma. A oes modd i chi annog eich plentyn, os nad ydynt wedi gwneud yn barod, i gwblhau'r holiadur. Mae'r wybodaeth yn allweddol i ni ddatblygu dysgu a chefnogi lles ein disgyblion. Yn yr un modd, rydym yn awyddus iawn i ganfod eich barn chi fel rhieni am y ddarpariaeth. **Gofynnwn yn garedig i chi felly i lenwi'r holiadur yma** fel y gallwn fireinio ein darpariaeth ymhellach.

Os oes unrhyw gwestiwn, neu unrhyw bryder gennych am ddysgu neu les eich plentyn, cofiwch ein bod yma i'ch cefnogi - cysylltwch â ni yn yr ysgol, neu ar yr e-bost isod i drafod ymhellach.

Yn ddiffuant,

Simon Davies



Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
 Heol Gwryosydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU
 Ffôn 01792 560600

Ebst: SwyddfaBrynTawe5@hwbcymru.net
www.bryntawe.swansea.sch.uk

Pennaeth: Mr Simon Davies



BUDDSODDWR
MEWN POBL

| Aur

